

## **Pennu Cwmpas Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

Mae'n rhaid i'r cyngor roi sylw teilwng i'r angen am:

- atal gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erlid a phob math arall o ymddygiad a waherddir gan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal ar gyfer rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a rhai heb nodweddion felly;
- feithrin perthynas dda rhwng y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a rhai heb nodweddion felly.

Yn ôl y Ddeddf, er mwyn rhoi sylw teilwng i'r angen am hybu cydraddoldeb, y mae'n rhaid:

- dileu neu leihau'r anfanteision y bydd pobl yn eu profi oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i gwrdd ag anghenion rhai sy'n perthyn i grwpiau gwarchoddedig, pan fo'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill;
- annog pobl a chanddynt nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan yn y bywyd cyhoeddus a gweithgareddau eraill lle y mae cyfraniad pobl o'r fath yn anghyfartal o isel.

Y nodweddion gwarchoddedig yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhyw
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd a chred
- Rhyw
- Rhywioldeb

Mae'r ddyletswydd hefyd yn ymwneud â phriodas a phartneriaeth sifil<sup>1</sup> ond dim ond o safbwynt atal unrhyw wahaniaethu annheg o'u herwydd. Yng Nghymru, y mae'n orfodol hefyd i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal ac i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Cewch ragor o gyngor am lunio asesiadau effaith ar dudalennau cydraddoldeb y Fewnrwyd [http://staffnet.valeofglamorgan.gov.uk/corp\\_cust\\_services/equalities.aspx](http://staffnet.valeofglamorgan.gov.uk/corp_cust_services/equalities.aspx)

Ffurflen Cwmpas Effaith Cydraddoldeb  
Rhagfyr 2013

Teitl y polisi, y drefn, yr ymarfer neu'r penderfyniad (y cyfeirio ato fel 'polisi' ym mhob rhan o'r ffurflen hon) a disgrifiad ohono.	<b>Cynllun Gwella Rhan 1: Amcanion Gwella 2015-2016</b>
--	---

Pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r polisi?

Enw	<b>Huw Isaac</b>
Teitl Swydd	<b>Pennaeth Perfformiad a Datblygu</b>
Adran / Cyfarwyddiaeth	<b>Adnoddau</b>

**Crynhoi'r amcanion:**

**Amcan 1: Cynnig gwasanaethau cynaliadwy a dulliau eraill o ddarparu gwasanaethau fel rhan o'n Rhaglen o Newid drwy Ail-lunio Gwasanaethau.**

**Amcan 2: Helpu mwy o bobl i allu byw'n annibynnol.**

**Amcan 3: Cynnal a gwella canol trefi'r Fro ar gyfer trigolion, ymwelwyr a busnesau.**

**Amcan 4: Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.**

**Amcan 5: Cau'r bwlc rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim.**

**1. Pwy fydd yn teimlo effaith y polisi hwn?**

Enghreifftiau tebygol yw:- trigolion y Fro, adrannau mewnol, grŵp penodol o gwsmeriaid neu staff, cwsmeriaid neu drigolion mewn lle penodol. Rhowch fanylion:

**Mae Amcanion Gwella Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer 2015/16 yn tynnu sylw at bum maes y mae'r cyngor am eu targedu er mwyn dod â gwelliannau sylweddol yn gynt.**

**Bydd rhai o'r gwasanaethau sy'n cael eu trafod yn yr amcanion unigol yn wasanaethau cyffredinol, a rhai eraill yn canolbwyntio ar grwpiau penodol. Bydd ein hamcanion ar gyfer 2014/15 yn effeithio ar y grwpiau hyn:- pawb sy'n manteisio ar wasanaethau'r Cyngor; trigolion y Fro; pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant; plant o dan ofal; pobl ifanc fregus; oedolion o dan ofal; pobl hŷn; plant ac oedolion anabl; plant ysgol; staff y Cyngor.**

**2. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar bobl o safbwynt oedran?**

- Effaith gadarnhaol
- Effaith negyddol
- Effaith niwtral / symol

Pa grwpiau oedran fydd y polisi hwn yn eu trafod?

- Pobl ifanc (plant a phobl ifanc o dan 18 oed)
- People 18- 50
- Pobl hŷn (50+)

Pawb

Rhai eraill (rhowch fanylion)\_\_\_\_\_

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Amcan 1 – Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau yw ymateb ymarferol y Cyngor i fesurau llymder y llywodraeth ganolog sydd wedi esgor ar gyfnod o gyfyngu ar arian y sector cyhoeddus na welwyd ei debyg erioed o'r blaen. Ystyried modelau eraill ar gyfer darparu gwasanaethau a fedrai leddfu ar effaith y toriadau a'i helpu i barhau i ddarparu gwasanaethau blaenoriaethol yw'r her i'r Cyngor bellach. Bydd y Strategaeth yn effeithio ar holl ddefnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor, trigolion y Fro a gweithlu'r Cyngor. Bydd y rheolwyr perthnasol yn cynnal astudiaeth 'pennu cwmpas asesiad effaith cydraddoldeb' fel mater o arfer ar gyfer pob gwasanaeth penodol a gynigir er mwyn sicrhau y rhoddir y sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Pan ddaw'n adeg cynnal 'asesiad effaith cydraddoldeb' llawn, byddwn yn dangos sut mae lleihau'r effaith ar 'nodweddion gwarchoddedig'**

Ffurflen Cwmpas Effaith Cydraddoldeb  
Rhagfyr 2013

ac yn sicrhau nad yw'r cynigion yn wahaniaethol a'u bod yn hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da i'r eithaf.

**Amcan 2 – nod yr amcan hwn yw cael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn drwy eu helpu i fyw'n fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, darparu gwasanaethau yn y gymuned a chymorth i ofalwyr, a'u hailalluogi.**

**Amcan 3 - nod yr amcan hwn yw cael effaith gadarnhaol ar drigolion y Fro beth bynnag fo'u hoedran, drwy dacluso'r strydoedd a'r mannau cyhoeddus a'i gwneud yn fwy ymarferol i gwmnïau fuddsoddi ym mhrif drefi'r Fro.**

**Amcan 4 – nod yr amcan hwn yw cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant, a rhai sydd mewn perygl o ddisgyn i'r categori hwnnw. Byddwn hefyd yn rhoi cymorth dwys i bobl ifanc fregus sydd, am resymau penodol, yn methu â chymryd rhan nac ailgydio mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant. Mae'r asesiad effaith cydraddoldeb a gynhaliwyd yn 2013 ar gyfer strategaeth ddiwygiedig pobl ifanc nad ydynt mewn addysg na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant, yn egluro pob effaith a ragwelir, yn llawn.**

**Amcan 5 – nod yr amcan hwn yw cael effaith gadarnhaol ar blant ysgol sy'n 18 oed ac yn iau drwy leihau'r bwlch cyrhaeddiad a achosir gan ddiffyg mantais. Byddwn yn monitro'r holl ddata perfformio ac yn nodi unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg fel y cawn adnabod yr anghenion o safbwynt datblygu a darparu ar eu cyfer.**

3. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad/ ymarfer hwn yn ei chael ar bobl anabl?

- Effaith gadarnhaol
- Effaith negyddol
- Effaith niwtral / symol

Pa nam(au) sydd dan sylw yma?

- Nam ar y llygaid
- Nam ar y clyw
- Anabledd corfforol
- Anabledd dysgu
- Cyflwr iechyd meddwl
- Pob un o'r rhain
- Nam arall (rhowch fanylion) \_\_\_\_\_

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Gyda golwg ar amcan 1, bydd y Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau'n cael effaith ar ein holl ddefnyddwyr, ar drigolion y Fro ac ar weithlu'r Cyngor. Gan hynny, bydd y rheolwyr perthnasol yn cynnal astudiaeth pennu cwmpas asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer**

Ffurflen Cwmpas Effaith Cydraddoldeb  
Rhagfyr 2013

pob gwasanaeth penodol a gynigir er mwyn sicrhau y rhoddir y sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Pan ddaw'n adeg cynnal 'asesiad effaith cydraddoldeb' llawn, byddwn yn dangos sut mae lleihau'r effaith ar 'nodweddion gwarchoddedig' ac yn sicrhau nad yw'r cynigion yn wahaniaethol a'u bod yn hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da i'r eithaf.

Ers Mawrth 2014, y mae 108 o bobl anabl yn gweithio yn y Cyngor - sef 3.63% o'r gweithlu. 22.6% o drigolion y Fro o oedran gweithio sydd wedi datgan eu bod yn anabl hyd yma. Serch hynny, y mae tystiolaeth ddi-ateg bod staff yn gyndyn i ddatgan anabledd am fod cywilydd arnynt, felly y mae'n bosibl nad yw'r ffigur hwn yn gynrychioliadol. 40 o staff a ddywedodd ei bod yn well ganddynt beidio ag ateb y cwestiwn. Y tu allan i'r Cyngor, y bydd yn rhaid i unrhyw gynig sy'n effeithio ar wasanaethau roi sylw priodol i bobl anabl a darparu ar gyfer gwasanaethau hygyrch.

Gyda golwg ar amcan 2, sy'n canolbwyntio ar helpu pobl i fyw'n fwy annibynnol, bydd anghenion unigol defnyddwyr, gan gynnwys anghenion sy'n tarddu o anabledd, yn cael ystyriaeth deilwng drwy weithredu'r polisiau a'r trefnau sy'n bodoli eisoes.

Prif nod amcan 3 yw gwella canol prif drefi'r Fro, gan gynnwys y cynlluniau ar gyfer gwasanaethau stryd, mannau cyhoeddus a rheoli traffig, drwy drefnu i waith ailddatblygu gael ei wneud yn gynharach a denu buddsoddwyr. Byddwn hefyd yn sicrhau ei bod yn haws cyrraedd a defnyddio canol trefi.

Prif nod amcan 4 yw sicrhau bod pob myfyriwr/unigolyn ifanc yn symud yn ei flaen yn dda, p'un ai a fo'n anabl ai peidio. Cynigir darpariaeth addas i'r pwrpas a hawdd ei defnyddio i bob unigolyn ifanc sy'n ateb ei anghenion dysgu.

Nod amcan 5 yw cael effaith gadarnhaol ar blant ysgol sy'n 18 oed ac yn iau drwy wella eu rhagolygon. Mae'r gwasanaeth yn hybu ac yn datblygu cyfleoedd i'n holl bobl ifanc ddysgu a gwella eu rhagolygon, p'un ai a fônt yn anabl ai peidio.

4. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael o safbwynt gwahanol rywiau?

Effaith gadarnhaol

Effaith negyddol

Effaith niwtral/symol

Pwy fydd yn teimlo'r effaith hon?

Dynion

Menywod

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr gwasanaethau beth bynnag a fo eu rhyw yw nod yr amcanion gwella'n gyffredinol.**

**Gyda golwg ar amcan 1, bydd y Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau'n cael effaith ar ein holl ddefnyddwyr, ar drigolion y Fro ac ar weithlu'r Cyngor. Gan hynny, bydd y rheolwyr perthnasol yn cynnal astudiaeth pennu cwmpas asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer pob gwasanaeth penodol a gynigir er mwyn sicrhau y rhoddir y sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Pan ddaw'n adeg cynnal 'asesiad effaith cydraddoldeb' llawn, byddwn yn dangos sut mae lleihau'r effaith ar 'nodweddion gwarchoddedig' ac yn sicrhau nad yw'r cynigion yn wahaniaethol a'u bod yn hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da i'r eithaf.**

**Dengys y data cyfredol fod 70% o weithlu'r Cyngor yn fenywod a 30% yn ddynion. Hanner a hanner, yn fras yw cyfansoddiad Bro Morgannwg yn gyffredinol yn ôl cyfrifiad 2011. Felly, y mae'n amlwg bod unrhyw effaith andwyol ar y gweithlu'n debyg o adael mwy o olion ar fenywod nag ar ddynion. Y tu allan i'r Cyngor, bydd cyfansoddiad y boblogaeth sy'n manteisio ar wasanaethau'r Cyngor o ran nifer y dynion a menywod yn cael ei gymryd i ystyriaeth cyn gynted ag y bydd cynigion penodol am wasanaethau.**

**Gyda golwg ar wasanaethau sy'n berthnasol i amcan 2, bydd sylw dyladwy'n cael ei roi i anghenion defnyddwyr o'r ddau ryw drwy'r polisïau a'r trefnau sy'n bodoli eisoes.**

**Mae'r gwaith gwella a mireinio sy'n cael ei wneud yng nghanol trefi'r Fro er lles ein holl drigolion, ymwelwyr a busnesau (amcan 3).**

**Dengys yr asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer amcan 4 fod mwy o fechgyn (60%) nag o ferched yn y Fro ar hyn o bryd nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant. Serch hynny bydd cyfleoedd ar gael i'r ddau ryw. Sicrhau bod myfyrwyr yn symud yn eu blaen yw'r canlyniad cadarnhaol sydd gennym mewn golwg.**

**Codi lefel cyrhaeddiad pob plentyn ysgol o dan 18 oed yw amcan 5 a hefyd leihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim**

**5. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar bobl drawsrywiol?**

Effaith gadarnhaol

Effaith negyddol

Effaith niwtral/symol

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Cael effaith gadarnhaol ar bob defnyddiwr gwasanaethau yw nod yr amcanion gwella, a bydd gwasanaethau'n trin pobl drawsrywiol yn gyfartal.**

**6. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar statws priodasol a phartneriaeth sifil?(<sup>1</sup> gweler y nodyn ar dudalen 1)**

- Effaith gadarnhaol
- Effaith negyddol
- Effaith niwtral/symol

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Cael effaith gadarnhaol ar bob defnyddiwr gwasanaethau yw nod yr amcanion gwella a bydd gwasanaethau'n rhoi'r un statws i briodas a phartneriaeth sifil.**

7. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar feichiogrwydd a/neu famolaeth?

- Effaith gadarnhaol
- Effaith negyddol
- Effaith niwtral/symol

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Cael effaith gadarnhaol ar bob defnyddiwr gwasanaethau yw nod yr amcanion gwella a bydd gwasanaethau'n trin menywod beichiog a menywod ar gyfnod o famolaeth yn gyfartal. Bydd pob gwasanaeth yn dilyn polisiâu a threfnau'r Cyngor ynglŷn â mamolaeth.**

8. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar wahanol grwpiau o safbwynt eu hil?

- Effaith gadarnhaol
- Effaith negyddol
- Effaith niwtral/symol

Nodwch y grwpiau sy'n debyg o deimlo effaith y polisi:

- Lleiafrifoedd ethnig
- Pobl o genedl arall
- Ceiswyr lloches / ffoaduriaid
- Sipsiwn / Teithwyr
- Pawb
- Grŵp arall (rhowch fanylion) \_\_\_\_\_

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Cael effaith gadarnhaol ar bob defnyddiwr gwasanaethau beth bynnag a fo ei hil, lliw ei groen neu'i dras ethnig yw nod cyffredinol yr amcanion gwella. Serch hynny, bydd amcanion unigol ar lefel gwasanaeth yn rhoi sylw dyladwy i'r effaith uniongyrchol neu**

anuniongyrchol ar bobl o safbwynt hil, lliw croen, cenedligrwydd neu dras ethnig neu genedlaethol.

Gyda golwg ar amcan 1, bydd y Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau'n cael effaith ar ein holl ddefnyddwyr, ar drigolion y Fro ac ar weithlu'r Cyngor. Gan hynny, bydd y rheolwyr perthnasol yn cynnal astudiaeth pennu cwmpas asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer pob gwasanaeth penodol a gynigir er mwyn sicrhau y rhoddir y sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Pan ddaw'n adeg cynnal 'asesiad effaith cydraddoldeb' llawn, byddwn yn dangos sut mae lleihau'r effaith ar 'nodweddion gwarchodedig' ac yn sicrhau nad yw'r cynigion yn wahaniaethol a'u bod yn hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da i'r eithaf.

Yn ôl y data a gasglwyd yn 2014, y mae'r rhan fwyaf o weithwyr y Cyngor yn groenwyn. Ychydig yn llai na 2.5% o'n holl staff sy'n dod o grwpiau ethnig lleiafrifol eraill, ac y mae hynny'n llai na chanran y bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol sy'n byw yn y Fro sydd ar hyn o bryd ryw fymryn yn llai na 4.4%. Y tu allan i'r Cyngor, bydd effaith cynigion ar grwpiau ethnig yn cael ei hystyried wrth i gynigion penodol gael eu gwneud.

Gyda golwg ar wasanaethau sy'n berthnasol i amcan 2, bydd sylw dyladwy'n cael ei roi i anghenion defnyddwyr o'r ddau ryw drwy'r polisïau a'r trefnau sy'n bodoli eisoes.

Mae'r gwaith gwella a mireinio sy'n cael ei wneud yng nghanol trefi'r Fro er lles ein holl drigolion, ymwelwyr a busnesau (amcan 3).

Gyda golwg ar amcan 4, bydd y cyfleoedd a gynigir ar gael i bawb beth bynnag a fo ei hil. Sicrhau y caiff myfyrwyr symud yn eu blaen yw'r canlyniad cadarnhaol sydd mewn golwg.

Gyda golwg ar amcan 5, bydd rhaglen Dysgu a Sgiliau Strategaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig yn helpu i godi lefelau cyrhaeddiad disgyblion o gefndir du a lleiafrif ethnig, ac felly'n cael effaith gadarnhaol.

9. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar wahanol grwpiau o safbwynt eu crefydd, eu credo neu'u diffyg crefydd?

Effaith gadarnhaol   
Effaith negyddol   
Effaith niwtral/symol

Nodwch y grwpiau sy'n debyg o deimlo effaith y polisi:

Grwpiau crefyddol  
(rhowch fanylion) \_\_\_\_\_



- |   |                          |
|---|--------------------------|
| Cred (e.e. Dyneiddiaeth)<br>(rhowch fanylion) _____ | <input type="checkbox"/> |
| Diffyg crefydd<br>(rhowch fanylion) _____           | <input type="checkbox"/> |
| Pawb  | <input type="checkbox"/> |

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Cael effaith gadarnhaol ar bob defnyddiwr gwasanaethau beth bynnag a fo ei grefydd, ei gred neu'i ddiffyg daliadau yw nod cyffredinol yr amcanion gwella.**

**Gyda golwg ar amcan 1, bydd y Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau'n cael effaith ar ein holl ddefnyddwyr, ar drigolion y Fro ac ar weithlu'r Cyngor. Gan hynny, bydd y rheolwyr perthnasol yn cynnal astudiaeth pennu cwmpas asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer pob gwasanaeth penodol a gynigir er mwyn sicrhau y rhoddir y sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Pan ddaw'n adeg cynnal 'asesiad effaith cydraddoldeb' llawn, byddwn yn dangos sut mae lleihau'r effaith ar 'nodweddion gwarchoddedig' ac yn sicrhau nad yw'r cynigion yn wahaniaethol a'u bod yn hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da i'r eithaf.**

**Yn ôl eu proffes, ychydig dros 28% o'n staff sy'n Gristnogion; 0.4% sy'n Foslemaid; 21.22% sy'n anghredinwyr; 2.19% a ddywedodd ei bod yn well ganddynt beidio â datgelu eu crefydd neu greddo a 46.86% a fethodd â'i datgelu. Yn ôl cyfrifiad 2011, 58.1% o drigolion y Fro sy'n Gristnogion; 0.3% sy'n Fwdistiaid; 0.2% sy'n Hindŵiaid; 0.1% sy'n Iddewon; 0.1% sy'n Siciaid; 0.6% sy'n Foslemaid; 0.4% sy'n proffesu crefydd arall; 32.9% sy'n anghredinwyr a 7.4% a fethodd â datgelu eu crefydd. Bydd y wybodaeth hon yn cael sylw priodol pan fydd cynigion manwl am wasanaethau'n cael eu gwneud.**

**Gyda golwg ar wasanaethau sy'n berthnasol i amcan 2, y mae holl anghenion ein defnyddwyr gan gynnwys eu crefydd, eu credo neu'u diffyg crefydd neu greddo'n cael sylw dyladwy yn y polisïau a'r trefnau sy'n bodoli eisoes.**

**Bydd amcan 5 yn helpu i wella lefelau cyrhaeddiad pob disgybl gan sicrhau bod rhai difreintiedig yn cael sylw ychwanegol, ac yn y modd yna'n cael effaith gadarnhaol.**

**10. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar wahanol grwpiau o safbwynt eu rhywioldeb?**

- |                       |                          |
|-----------------------|--------------------------|
| Effaith gadarnhaol    | <input type="checkbox"/> |
| Effaith negyddol      | <input type="checkbox"/> |
| Effaith niwtral/symol | <input type="checkbox"/> |

Nodwch y grwpiau sy'n debyg o deimlo effaith y polisi:

Dynion hoyw

Lesbiaid

Pobl ddeurywiol

Pawb

Grwpiau eraill (rhowch fanylion) \_\_\_\_\_

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Cael effaith gadarnhaol ar bob defnyddiwr gwasanaethau beth bynnag a fo ei rywioldeb yw nod cyffredinol yr amcanion gwella.**

**Gyda golwg ar amcan 1, bydd y Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau'n cael effaith ar ein holl ddefnyddwyr, ar drigolion y Fro ac ar weithlu'r Cyngor. Gan hynny, bydd y rheolwyr perthnasol yn cynnal astudiaeth pennu cwmpas asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer pob gwasanaeth penodol a gynigir er mwyn sicrhau y rhoddir y sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Pan ddaw'n adeg cynnal 'asesiad effaith cydraddoldeb' llawn, byddwn yn dangos sut mae lleihau'r effaith ar 'nodweddion gwarchoddedig' ac yn sicrhau nad yw'r cynigion yn wahaniaethol a'u bod yn hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da i'r eithaf.**

**Yn ôl cyfrifiad 2001 (ceir y ffigyrau diweddaraf o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol), 128 o drigolion y Fro sydd mewn perthynas gyfunrywiol. Ychydig dros 1% o staff y Cyngor a ddywedodd eu bod yn lesbiaid neu'n hoywon; 47% a fethodd â chofnodi eu rhywioldeb; 2.5% a ddywedodd ei bod yn well ganddynt beidio â'i ddatgelu a'r gweddill, sef 49.5% a ddywedodd eu bod yn wahanrywiol. Yn ôl arolwg teuluoedd integredig 2013, 3% o boblogaeth Caerdydd a'r Fro sy'n lesbiaid, yn hoyw neu'n ddeurywiol.**

**Gyda golwg ar wasanaethau sy'n berthnasol i amcan 2, y mae anghenion defnyddwyr o bob rhywioldeb yn cael sylw dyladwy yn y polisïau a'r trefnau sy'n bodoli eisoes.**

**Mae'r gwaith gwella a mireinio sy'n cael ei wneud yng nghanol trefi'r Fro er lles ein holl drigolion, ymwelwyr a busnesau (amcan 3).**

**Gyda golwg ar amcan 4, bydd y cyfleoedd a gynigir ar gael i bawb beth bynnag a fo ei rywioldeb. Sicrhau y caiff myfyrwyr symud yn eu blaen yw'r canlyniad cadarnhaol sydd mewn golwg.**

**Bydd amcan 5 yn helpu i wella lefelau cyrhaeddiad pob disgybl gan sicrhau bod rhai difreintiedig yn cael sylw ychwanegol, ac yn y modd yna'n cael effaith gadarnhaol.**

Ffurflen Cwmpas Effaith Cydraddoldeb  
Rhagfyr 2013

11. Pa fath o effaith y bydd y polisi / penderfyniad / ymarfer hwn yn ei chael ar yr iaith Gymraeg?

Effaith gadarnhaol

Effaith negyddol

Effaith niwtral/symol

Y rhesymau am eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) a'i effaith debygol

**Mae pob un o'r amcanion gwella'r un mor berthnasol i'r Gymraeg ag i'r Saesneg o dan Gynllun Iaith presennol y cyngor. Bydd defnyddwyr sy'n siarad Gymraeg yn cael yr un cyfleoedd ag unrhyw ddefnyddwyr eraill.**

**Gyda golwg ar amcan 1, bydd y Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau'n cael effaith ar ein holl ddefnyddwyr, ar drigolion y Fro ac ar weithlu'r Cyngor. Gan hynny, bydd y rheolwyr perthnasol yn cynnal astudiaeth pennu cwmpas asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer pob gwasanaeth penodol a gynigir er mwyn sicrhau y rhoddir y sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Pan ddaw'n adeg cynnal 'asesiad effaith cydraddoldeb' llawn, byddwn yn dangos sut mae lleihau'r effaith ar 'nodweddion gwarchoddedig' ac yn sicrhau nad yw'r cynigion yn wahaniaethol a'u bod yn hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da i'r eithaf.**

**Mae'r gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yn amrywio o unigolyn i unigolyn, ond yn ôl cyfrifiad 2011, 8.2% o boblogaeth y Fro a fedr siarad, darllen ac ysgrifennu'r iaith tra bod 83.7% o'r boblogaeth heb unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl. Dangosodd arolwg ar iaith y staff a gynhaliwyd yn 2014, fod gan ryw 629 o weithwyr (21%) ddealltwriaeth sylfaenol o'r Gymraeg. Y tu allan i'r Cyngor, bydd gwasanaethau'n cael eu darparu yn Gymraeg fel rhan o unrhyw gynigion penodol.**

**Gyda golwg ar wasanaethau sy'n berthnasol i amcan 2, y mae anghenion defnyddwyr yn cael sylw yn y polisiau a'r trefnau sy'n bodoli eisoes ni waeth pa iaith y byddant yn ei siarad.**

**Mae'r gwaith gwella a mireinio sy'n cael ei wneud yng nghanol trefi'r Fro er lles ein holl drigolion, ymwelwyr a busnesau (amcan 3).**

**Gyda golwg ar amcan 4, bydd y cyfleoedd a gynigir ar gael i bawb ni waeth pa iaith y mae'n ei siarad. Sicrhau y caiff myfyrwyr symud yn eu blaen yw'r canlyniad cadarnhaol sydd mewn golwg.**

**Bydd amcan 5 yn helpu i wella lefelau cyrhaeddiad pob disgybl gan sicrhau bod rhai difreintiedig yn cael sylw ychwanegol, ac yn y**

modd yna'n cael effaith gadarnhaol.

**12. Os ydych wedi sylwi ar effeithiau cadarnhaol neu negyddol (yn hytrach na 'symol') ar grwpiau a chanddynt 'nodweddion gwarchoddedig', dylech gynnal asesiad effaith llawn.**

Oes angen asesiad effaith cydraddoldeb llawn?

Oes

Nac oes

**Gyda golwg ar amcan 1, bydd y Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau'n cael effaith ar ein holl ddefnyddwyr, ar drigolion y Fro ac ar weithlu'r Cyngor. Gan hynny, bydd y rheolwyr perthnasol yn cynnal astudiaeth pennu cwmpas asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer pob gwasanaeth penodol a gynigir er mwyn sicrhau y rhoddir y sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Pan ddaw'n adeg cynnal 'asesiad effaith cydraddoldeb' llawn, byddwn yn dangos sut mae lleihau'r effaith ar 'nodweddion gwarchoddedig' ac yn sicrhau nad yw'r cynigion yn wahaniaethol a'u bod yn hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da i'r eithaf.**

**Amcan 2: Byddwn yn sicrhau canlyniadau'r amcan hwn drwy weithredu'r polisiâu a'r trefnau presennol sy'n rhoi sylw dyladwy i'r effaith debygol ar grwpiau a chanddynt 'nodweddion gwarchoddedig'. Serch hynny, y mae'n rhaid i bob gwasanaeth yn y cyngor gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ar gyfer polisiâu a threfnau newydd. Am na fydd angen unrhyw bolisiâu na threfnau newydd er mwyn dod i ben â'r amcan hwn, ni fydd angen cynnal asesiad effaith. Bydd pob defnyddiwr yn cael ei asesu er mwyn i ni allu darparu'r union wasanaethau sydd eu hangen arno. Bydd yr asesiad yn rhoi sylw penodol i alluoedd yr unigolyn ac yn cymryd pob 'nodwedd warchoddedig' i ystyriaeth.**

**Amcan 3: Bydd y gwasanaeth yn cydweithio â phartneriaid statudol a sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector i wella canol trefi ar draws y Fro gan sicrhau fel mater o arfer fod pob prosiect yn rhoi sylw dyladwy i anghenion defnyddwyr. Bydd pob gwaith mewn manau cyhoeddus yn dilyn canllawiau cynllunio sy'n darparu ar gyfer cydraddoldeb. Mae'r gwasanaeth hefyd yn dibynnu i raddau helaeth ar nawdd allanol ac y mae amodau'r grant yn pwysleisio cydraddoldeb.**

**Amcan 4: Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer strategaeth pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant (Awst 2013). Bydd hyn yn sicrhau bod adnoddau prin yn cael eu cyfeirio at y rhai mwyaf anghenus ymhlith y bobl ifanc yn y categori hwn. Mae'n bosibl y bydd rhai sy'n fwy anghenus oherwydd anawsterau unigol (anabledd, problem iechyd corff neu feddwl, anghenion dysgu) yn methu â manteisio ar bob darpariaeth. Byddwn wedyn yn ceisio cynnig opsiynau eraill fel y bo'n briodol yn unol â Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Cymru.**

**Amcan 5: Byddwn yn sicrhau canlyniadau'r amcan hwn drwy weithredu'r polisïau a'r trefnau presennol sy'n rhoi sylw dyladwy i'r effaith debygol ar grwpiau a chanddynt 'nodweddion gwarchoddedig'. Mae'n rhaid i bob gwasanaeth yn y cyngor gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ar gyfer polisïau a threfnau newydd. Am na fydd angen unrhyw bolisïau na threfnau newydd er mwyn dod i ben â'r amcan hwn, ni fydd angen cynnal asesiad effaith.**

### 13. Awdurdodi

Mae'n rhaid i'r ffurflen hon gael ei hawdurdodi gan Bennaeth y Gwasanaeth neu Reolwr Gweithredol perthnasol.

Cymeradwywyd gan (enw)	Huw Isaac
Teitl ei Swydd	Pennaeth Perfformiad a Datblygu
Dyddiad	11 Ebrill 2014

Llofnod \_\_\_\_\_

Ar ôl ei llenwi dylech anfon copi llofnodedig a chopi electronig o'r ffurflen hon i'r Adran Gydraddoldeb: [tsgreaves@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:tsgreaves@valeofglamorgan.gov.uk). Ffoniwch 01446 709446 am gymorth.